



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12 Mawrth 2023

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Cofion a Chydymdeimlad

Gyda thristwch y daeth y newyddion ddiwedd mis Chwefror am farwolaeth Mrs Aledwen Jones (Nantglyn). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r merched – Angharad (Nantglyn), Eleri a Rhian, ac â gweddiill y teulu yn eu profedigaeth. Gweddiwn eu bod yn profi Duw yn agos ac yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn. Parhawn i gofio hefyd am y teuluoedd eraill sy'n galaru am anwyliaid.

Anfonwn ein cofion at y cleifion yn ein plith. Mae Dewi Williams (Llanefydd) yn parhau i gael gofal yn Ysbyty'r Heath, Caerdydd yn dilyn llawdriniaeth yno yr wythnos ddiwethaf. Hyderwn y bydd y gofal da y mae'n ei dderbyn yn ei helpu i gael adferiad iechyd buan iawn. Parhawn ninnau i weddio dros Dewi ac eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd. Cyflwynwn bawb ohonynt a'u hanwyliaid i ofal Duw gan ofyn Iddo warchod drostynt a'u cynnal yn eu hangen.

Apêl wedi'r daeargrynfeydd yn Nhwrci a Syria

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth i'r miloedd lawer sydd wedi'u heffeithio gan y daeargrynfeydd diweddar yn ne Twrci a gogledd-orllewin Syria. Yn ychwanegol at yr arian sydd wedi ei gyfrannu'n uniongyrchol gan unigolion, mae cyfanswm o £1,575.00 wedi ei dderbyn trwy law'r Ofalaeth, arian sydd bellach wedi ei drosglwyddo i Apêl DEC er mwyn helpu i ddarparu cymorth uniongyrchol i'r rhai mewn angen yno. Parhawn i weddio dros y sefyllfa dorcalonnus yma.

Gwaith cwrs

Gwahoddir yr Ysgolion Sul i roi'r gwaith a wneir ar y Sul mewn llun neu mewn unrhyw ffurf/gyfrwng arall i greu arddangosfa yng Nghyfarfod Gwobrwyo'r Ysgol Sul a gynhelir yng Nghapel y Fron, Dinbych nos Wener Mai 26ain am 6.30 yr hwyr. Bydd angen mynd â'r gwaith i Gapel y Fron erbyn 5:45 yr hwyr ar y noson wobrwyo er mwyn iddo gael ei osod ar y byrddau.

Gŵyl Llanw 2023

Cynhelir yr ŵyl Gristnogol hon eleni yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog ar Ebrill 10^{fed}-13^{eg}. Bydd oedfa deulu, addoliad cyfoes, pregethau a sesiynau i'r plant a'r ieuencid. Cymraeg fydd iaith holl weithgaredd a chyfarfodydd Llanw ond bydd offer cyfieithu ar gael yn y prif oedfaon. Bydd croeso i bawb ymuno yn y cyfarfodydd. Ewch i wefan Llanw (<https://llanw.org/llanw-23/>) i gael mwy o fanylion ac er mwyn archebu tocynnau.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (22^{ain}), os gwelwch yn dda.

Wrth i mi ysgrifennu'r myfyrdod hwn ar fore dydd lau, mae Llansannan dan garped trwchus o eira ac Ysgol Bro Aled wedi cau am y dydd. Gallwch ddychmygu'r cyffro yn ein tŷ ni! Er na fydd pawb yn gwirioni'r un fath, i'r rhai sydd ddim yn gorfod mentro allan i'r oerfel, anodd yw peidio rhyfeddu wrth sylwi ar y tirwedd o'n cwrpas wedi'i drawsnewid yn llwyr. Hyd yn oed yn y gerddi bleraf, mae'r llanast yn cael ei orchuddio wrth iddo gael ei ddisodli gan brydferthwch claerwyn. Dyma'r ddelwedd fyw sy'n cael ei defnyddio yn y Beibl i gyfeirio at yr Arglwydd yn maddau i'w bobl. Dywed Eiseia 1:18, "Yn awr, ynteu, ymresymwn â'n gilydd," medd yr Arglwydd. "Pe bai eich pechodau fel ysgarlod, fe fyddant cyn wynnedd â'r eira; pe baent cyn goched â phorffor, fe ânt fel gwlan."

Os darllenwch ddechrau pennod gyntaf Eiseia, daw'n amlwg fod pobl Dduw ar dir peryglus gan eu bod wedi troi cefn ar yr Arglwydd. Cânt eu ceryddu oherwydd eu drygioni a'u hanghyfiawnder nes bod Duw'n dweud ei fod yn syrffedu ar eu haddoliad gwag, ac nad yw am wrando ar eu gweddiâu gan fod eu dwylo'n llawn gwaed (ad.15).

Efallai nad ydym ni'n gweld ein hunain yn yr un termau, ond mae'r Beibl yn dangos yn glir bod pawb ohonom wrth natur yn gwrthryfela yn erbyn ein Creawdwr. Er bod yr arwyddion sy'n amlygu hynny'n amrywiol, gwelwn trwy'r Beibl sut mae hunanoldeb, anghyfiawnder a chasineb yn effeithio pob cenedlaeth.

Ond diolch i'r Arglwydd, trwy Iesu Grist daeth gobaith i'n byd toredig. Rhoddodd Eiseia 1:18 gipolwg i ni o'r hyn fyddai'n digwydd, ac ar dudalennau'r Testament Newydd gwelwn yr uchafbwynt bendigedig wrth i Dduw sicrhau maddeuant i'r euog, a disodli hagrach ein pechod gyda harddwch cyfiawnder Crist: 'Ond os ydyn ni'n byw yn y golau, fel mae Duw yn y golau, dyn ni'n perthyn i'n gilydd ac mae gwaed Iesu ei Fab yn ein glanhau o bob pechod.' (1 Ioan 1:7 beibl.net)

Yn y ddau ddyfyniad Beiblaidd o Eiseia ac 1 Ioan, nid cyd-ddigwyddiad yw'r cysylltiad rhwng maddeuant ac edifeirwch. Rhodd gras Duw yw maddeuant oherwydd bod Iesu wedi talu'r pris am ein pechodau ar y Groes, ond nid er mwyn i ni barhau â'n hen ffordd wrthryfelgar o fyw. Trwy'r Efengyl, mae Duw yn ein galw at Iesu Grist i brofi hyfrydwch maddeuant, ac i fywyd newydd o gyfiawnder trwy nerth yr Ysbryd Glân. 'Peidiwch â gwneud drwg, dysgwch wneud daioni. Ceisiwch farn, achubwch gam y gorthrymedig, amddiffynnwch yr amddifad, a chymerwch blaid y weddw.' (Eiseia 1:17).

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Mawrth 12^{fed}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Hywel Meredydd. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan, a bydd Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa yn Groes.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Dydd Mawrth, Mawrth 14^{eg}

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Cwrdd Chwarter Annibynwyr Gorllewin Dinbych a Fflint** yn Festri Capel Lôn Swan, Dinbych am 7:00 yr hwyr gyda chyflwyniad gan Cheryl Williams ar 'Dod i wybod mwy am fyw gyda Dementia'.

Dydd Iau, Mawrth 16^{eg}

- **Hwyl Pnawn Iau (oedran derbyn – Bl.6)** yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala.

Dydd Sadwrn, Mawrth 18^{fed} *Wedi ei ail-drefnu*

- **Bore Coffi** wedi ei drefnu gan Eglwys Unedig Llansannan i godi arian tuag at Apêl Daeargryn Twrci/Syria yn Festri Capel Coffa Henry Rees o 10:00 – 12:00. Gwerthfawrogi cyfraniadau tuag at y stondin gacennau a chynnyrch. Croeso i bawb.

Dydd Sul, Mawrth 19^{eg}

- **Oedfa Gymun yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Llanefydd** am 9:30 ac **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson. Bydd Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd ac Ysgol Sul yn Henllan am 10:00.
- **Ni fydd Oedfa i'r Daith yn Saron heddiw.**
- **Oedfa'r Fro** yng Nghefn Meiriadog am 6:00 gyda Rhodri yn pregethu.

Dydd Mawrth, Mawrth 21^{ain}

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Iau, Mawrth 23^{ain}

- **Hwyl Pnawn Iau (oedran derbyn – Bl.6)** yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala.
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Cefn Berain am 6:30 yr hwyr.

Dydd Sul, Mawrth 26^{ain}

- **Oedfa i'r Daith yn Llanfair** am 10:30 o dan arweiniad Mr Rhys Dafis. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **Oedfa Deuluol yn Llanefydd** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Rhaghysbys

Bydd pleidlais ddirgel yn cael ei chynnal ymhob un o eglwysi'r Ofalaeth yn ystod mis Ebrill i ofyn a yw'r aelodau o blaid galw Gweinidog arall i fugeilio'r eglwysi. Cewch ragor o fanylion yn y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled.

Hefyd, cynhelir oedfa arbennig **nos Sul, Ebrill 30^{ain}** yn Llansannan am 6:00 yr hwyr i ffarwelio ac i ddiolch i Rhodri am ei wasanaeth dros y blynyddoedd inni yma ym Mro Aled. Bydd croeso cynnes i bawb i'r oedfa.

Casgliad Cenhadol Chwiorydd y Gogledd (EBC)

Derbyniwyd neges yn diolch am haelioni Chwiorydd Sasiwn Gymraeg y Gogledd a gyfrannodd £24,080 tuag at Gasgliad Arbennig y Chwiorydd yn 2022. Cafodd yr arian ei rannu rhwng prosiectau cenhadol yn rhyngwladol ac yma yng Nghymru. Anfonwyd arian at brosiectau yn Lesotho, Romania, Uganda, Misoram, Singapore a Hwngari.

Cynhelir Sasiwn 2023 yng Nghapel Maengwyn, Machynlleth, a hynny ar ddydd Iau, Mai 4^{ydd}. Y siaradwraig wadd fydd Mrs Nerys Siddall, Rheolwr a Swyddog Addysg Canolfan Byd Mari Jones, Y Bala.

Eto eleni, bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau er mwyn cefnogi gwaith cenhadol yn lleol a thramor. Os byddwch am gyfrannu, rhwch yr arian i Drysorydd eich eglwys **erbyn Ebrill 9^{fed}**, os gwelwch yn dda.

(Nodyn i'r Trysoryddion: A wnewch chi roi gwybod i Mair erbyn **Ebrill 11eg** gyfanswm casgliad eich eglwys, ac yna trosglwyddo'r arian i Mair naill ai ar-lein, neu trwy anfon siec yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', mor fuan â phosib wedi hynny, os gwelwch yn dda?)